Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2013**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Steve George**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8242
craffuPW@cymru.gov.uk

## Agenda

**Rhag-gyfarfod (09.30 - 09.45)**

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.45 - 09.50)

### 2 Craffu ar Waith y Gweinidog - Cydberthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector a'r Sector Preifat (09:50 - 11.45) (Tudalennau 1 - 14)

CSFM(4)-04-13 Papur 1

CSFM(4)-04-13 Papur 2

- Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog
- Eleanor Marks, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gymunedau
- James Price - Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

**Themâu Craffu - Yn cynnwys:**
**Y trydydd sector/sefydliadau anllywodraethol:**

- Rôl y trydydd sector o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus;
- Cyllid a chystadleuaeth;
- Llywodraethu;

- Gwerth am arian.

**Y sector preifat**:

- Gweithredu Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru;
- Defnydd Llywodraeth Cymru o fyrddau cynghori a arweinir gan y sector preifat;
- Rôl bosibl y sector preifat o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol;
- Effaith polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar fusnes.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 4 a 5

## 4 Trafod y dystiolaeth o'r sesiynau blaenorol (11.45 - 11.55)

## 5 Trafod ymateb y Prif Weinidog i argymhellion y Pwyllgor yn dilyn ei gyfarfod diwethaf (11.55 - 12.05)

**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR I'R PRIF WEINIDOG GRAFFU ARNI: PERTHYNAS LLYWODRAETH CYMRU Â'R TRYDYDD SECTOR A CHYRFF ANLLYWODRAETHOL**

**Cyflwyniad a Throsolwg**

1. Pwrpas y papur hwn yw nodi tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch cyfeiriad cyfredol ac arfaethedig perthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector yng Nghymru a chyrff anllywodraethol.
2. Mae'r papur yn nodi'r cefndir a'r sefyllfa bresennol o ran y berthynas hon (paragraffau 5-17) ac yna yn amlinellu'r ymgynghoriad sydd wedi digwydd yn ystod 2013 (paragraffau 18-19). Nodir [Nodwyd] cynigion sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn mewn Datganiad Llafar gan y Gweinidog dros Gymunedau a Threchu Tlodi ar 12 Tachwedd. Byddant yn cael eu hystyried mewn Cynllun Trydydd Sector diwygiedig a fydd yn destun ymgynghori pellach drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
3. Mae crynodeb o'r newidiadau arfaethedig ym mharagraff 20. Mae'r adrannau canlynol (paragraffau 21-40) yn rhoi manylion ychwanegol am y materion sydd wedi eu hadolygu ac a fydd yn cael eu datblygu yn ystod 2014.
4. Mae **Atodiad A** yn rhoi enghreifftiau o nifer o adrannau o ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector.

**Cefndir ynghylch y Trydydd Sector yng Nghymru**

*Trydydd Sector Cymru*

5. Mae'r Trydydd Sector yng Nghymru yn cwmpasu: tua 33,000 o sefydliadau; 230,000 o ymddiriedolwyr; 1.13 miliwn o wirfoddolwyr a phobl sy'n helpu yn eu cymuned, a 51,000 o weithwyr.

*Cymorth ariannol*

6. Dangosir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector drwy ei £323 miliwn o gyllid uniongyrchol yn 2012-13 i dros 960 o sefydliadau. Gan gymryd cyllid anuniongyrchol i ystyriaeth - er enghraifft, arian sy'n mynd drwy awdurdodau lleol - mae cyfanswm y ffigwr yn sylweddol uwch.

**Y sefyllfa bresennol**

*Fframwaith deddfwriaethol*

7. Mae perthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector yn unigryw yn y DU gyda'i gwreiddiau mewn fframwaith deddfwriaethol. Mae Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun yn nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo buddiannau mudiadau gwirfoddol perthnasol. Mae hyn yn cael ei adnabod fel y Cynllun Gwirfoddol / Trydydd Sector. Y ddeddfwriaeth hon sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer

perthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector gan gynnwys ar gyfer rhai o'r trefniadau a nodir yn y paragraffau isod.

*Cynllun y Trydydd Sector*

8. Mae Cynllun y Trydydd Sector yn ddatganiad o fwriad Gweinidogion Cymru i fwrw ymlaen gyda'u perthynas gyda'r Trydydd Sector ac yn nodi:

   *(a) sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhoi cymorth i sefydliadau gwirfoddol perthnasol (boed hynny drwy grantiau, benthyciadau, gwarantau neu unrhyw ddull arall),*

   *(b) sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu monitro'r defnydd a wneir o unrhyw gymorth a ddarperir ganddynt i sefydliadau gwirfoddol perthnasol, a*

   *(c) sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ymgynghori â sefydliadau gwirfoddol perthnasol ynghylch arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau sy'n berthnasol i faterion sy'n effeithio ar, neu o bryder i, sefydliadau o'r fath.*

*Y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector*

9. Mewn perthynas ag (a) uchod, mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys ymrwymiad i gynnal Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector i gynnig egwyddorion a fydd yn sail i gyllido'r sector gan Lywodraeth Cymru.

*Seilwaith y Trydydd Sector*

10. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Seilwaith cydlynol y Trydydd Sector i gefnogi'r Trydydd Sector yng Nghymru. Mae'r Seilwaith yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), rhwydwaith y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) a Chanolfannau Gwirfoddoli yng Nghymru. Cyfanswm y cyllid ar gyfer y Seilwaith yn 2013/14 yw £7.4 miliwn.

*Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru*

11. Fel rhan o'r Seilwaith, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn cyflawni nifer o swyddogaethau pwysig ynghylch rheoli grantiau i'r Seilwaith ehangach yn ogystal â hwyluso rôl ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru.

*Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS)*

12. Rôl allweddol Cyngor Gwirfoddol Sirol yw darparu cyngor a gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol am wirfoddoli, ffynonellau ariannu ac amrywiaeth eang o faterion eraill.

13. Mae'r maes cyfrifoldeb ar gyfer pob CGS yn cyfateb i ffiniau ffurfiol awdurdodau lleol yng Nghymru ac eithrio Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) na chafodd ei rannu i fyny ac sy'n parhau i gynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd (ond nid Torfaen). Mae hyn yn golygu bod yna 19 CGS yn cynrychioli'r 22 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru.

*Canolfannau Gwirfoddolwyr*

14. Mae canolfan wirfoddoli ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, yn ogystal â 12 o Ganolfannau sy'n cynnwys sir wledig fawr Powys, gan wneud cyfanswm o 33. Maent i gyd yn sefydliadau'r Trydydd Sector ac mae'r rhan fwyaf yn rhan o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (mae Canolfannau Gwirfoddoli annibynnol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg), ond maent yn gweithio i safon gyffredin o wasanaeth.

*Cefnogaeth ar gyfer Gwirfoddoli*

15. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi gwirfoddoli drwy ddau gynllun grant sylweddol sydd ar waith yng Nghymru, Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a GwirVol, sydd ill dau yn cael eu rheoli gan GGGC (WCVA).

16. Mae'r Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru yn cefnogi sefydliadau yng Nghymru sy'n ceisio recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd, yn enwedig o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a grwpiau lleiafrifol. Mae £1 miliwn ar gael yn y flwyddyn ariannol gyfredol i gyflwyno'r rhaglen hon. Mae Gwirvol yn fenter debyg wedi'i thargedu at ddenu pobl ifanc 16-24 oed i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol. Mae Gwirvol yn cael ei arwain i ryw raddau gan bobl ifanc drwy banel o'r enw GwirForce. Mae gan Gwirvol £1.1 miliwn ar gael yn y flwyddyn ariannol hon.

*Ymgysylltu*

17. Y prif fecanweithiau ar gyfer ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector ar lefel genedlaethol yw Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) a chyfarfodydd Gweinidogion (gweler manylion pellach isod).

**Adnewyddu'r berthynas â'r Trydydd Sector**

18. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwerthfawrogi ei pherthynas waith agos gyda'r Trydydd Sector yng Nghymru ers amser maith, ond fel unrhyw berthynas, rhaid iddi edrych ar ba mor dda y mae'r berthynas yn gweithio ar gyfer y ddau barti i gadw pethau'n ffres ac yn addas at y diben.

19. Ar ddechrau 2013, cyhoeddodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant AC, yn ffurfiol ei fwriad i adolygu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru. Dechreuodd swyddogion weithio gyda'r Trydydd Sector a rhanddeiliaid eraill i gynllunio a chyflwyno dogfen ymgynghori ffurfiol a gafodd ei lansio ar 16 Mai - *Parhad a Newid, Gloywi'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector.* Daeth yr ymgynghori hwnnw i ben ar 8 Awst. Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori hefyd ar draws Cymru. Cafodd y 240 o ymatebion a dderbyniwyd bellach eu dadansoddi.

20. Mae'r ymgynghoriad wedi cadarnhau rhai agweddau ar y trefniadau presennol ond mae hefyd yn cefnogi agenda ar gyfer newid, gan gynnwys:

- mwy o ffocws ar gyflawni;

- cyfarfodydd mwy strategol a chyda mwy o ffocws rhwng Gweinidogion a'r Sector, neu'r prif gyrff Seilwaith;
- cefnogaeth syml ar gyfer gwirfoddoli;
- cryfhau Compactau lleol drwy arweiniad yn hytrach na deddfwriaeth, a
- threfniadau gweithio rhanbarthol newydd.

*Cyfeiriad yn y dyfodol*

21. Y prif newid mewn cyfeiriad strategol yw ei gwneud yn glir er bod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r Trydydd Sector oherwydd y cyfraniad y gall ei wneud i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir Cymru, ei phobl a'i chymunedau, mae angen i'r ffocws symud at y canlyniadau y gallai'r sector helpu i'w cyflawni. Dylai Trydydd Sector cryf gyfrannu at les tymor hir o'i ran ei hun, ond dylai hefyd fod yn gallu dangos sut mae'n cyfrannu at y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu nodi fel blaenoriaethau.
22. Mae'r Trydydd Sector eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol iawn yn hyn o beth ac mae ganddo'r potensial i wneud mwy, gan fanteisio ar ewyllys da ac angerdd miloedd o wirfoddolwyr a sefydliadau. Mae angen i rôl y cyrff cymorth ganolbwyntio'n fwy pendant ar alluogi'r sector yn ei gyfanrwydd i sicrhau canlyniadau.
23. Mae ymgysylltu â Llywodraeth Cymru gan y Trydydd Sector yn parhau i fod yn bwysig, ond mae angen i ymgysylltu o'r fath fod wedi'i dargedu'n fwy cyson tuag at alluogi cyflawni, wedi'i gysylltu'n arbennig â'r Rhaglen Lywodraethu, yn hytrach na chael ei weld fel diben ynddo'i hun.

*Cynllun Diwygiedig y Trydydd Sector*

24. Mae drafft Cynllun diwygiedig y Trydydd Sector yn fwy cryno a strategol na fersiynau blaenorol. Mae'n nodi darpariaethau ar gyfer sicrhau bod y berthynas yn canolbwyntio ar y meysydd sy'n dod â budd i'r ddwy ochr fel cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru gydag ymrwymiad gwirioneddol i ymgysylltu ynghylch y materion sy'n cael eu hamlygu gan y Trydydd Sector.

*Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector*

25. Mae Cod Ymarfer drafft diwygiedig ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector drwy Bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a thros gyfnod o chwe mis. Mae'r drafft yn cynrychioli swm sylweddol o waith ar y cyd gyda'r Pwyllgor ac mae'n cynnwys eu cyfraniadau ac yn ymdrin â'r materion a godwyd ganddynt.
26. Mae'r Cod drafft yn nodi'r dull gweithredu sydd i'w gymryd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cyllid cynaliadwy i'r Trydydd Sector. Mae'r Cod Ymarfer diwygiedig yn cynnwys set fwy datblygedig o egwyddorion gan gynnwys ynghylch monitro a gwneud cwynion. Mae'r Cod hefyd yn darparu enghraifft o

arfer da i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd.

*Mecanweithiau Ymgysylltu Diwygiedig*

27. Mae'r ymgynghoriad wedi nodi bod Cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth a Chyfarfodydd Gweinidogion yn rhannau gwerthfawr o'r strwythurau ymgysylltu presennol. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu gan strwythurau ymgysylltu tebyg gyda llywodraeth leol a menter. Ond mae ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos bod angen i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector gael ei ailstrwythuro, ei ailfywiogi a dod yn fwy perthnasol. Mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol i'r cyfarfodydd Gweinidogol.

28. Felly, bwriedir gwneud newidiadau sylweddol i'r Cyngor Partneriaeth a'i Is-bwyllgorau (a elwir yn Ffrydiau Gwaith). Mae'r cynigion yn cynnwys: gwelliannau i'r broses enwebu ar gyfer aelodaeth, mwy o ymgysylltu gyda sefydliadau lleol gan ddefnyddio technoleg a rhwydweithio cymdeithasol; a dimensiwn rhanbarthol i waith y Cyngor Partneriaeth. Bydd newidiadau hefyd yn cynnwys mwy o drafodaeth ymlaen llaw gyda swyddogion i ganiatáu ar gyfer cyfarfodydd cliriach, gyda mwy o ffocws a rhai sy'n fwy amserol.

29. Byddai cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector llawn yn parhau i gael eu cadeirio gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb portffolio rhwng dwy a thair gwaith y flwyddyn. Yn y dyfodol, bydd cynllun gwaith blynyddol yn cael ei gytuno gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac yn cael ei adolygu i osod yr agenda ar gyfer Ffrydiau Gwaith. Gosodir amcanion clir hefyd ar gyfer pob un a fydd yn ychwanegu gwerth at y canlyniadau y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt gan Lywodraeth Cymru. Bydd gan ffrydiau gwaith arweiniad cliriach a rennir ynghylch amserlenni, cylch gwaith ac ansawdd gan ddefnyddio'r Is-Bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio cyfredol fel model.

30. Yr arfer fu ychwanegu at Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector gyda chyfarfodydd portffolio gyda Gweinidogion unigol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi ceisio cynnwys portffolio Gweinidog yn llawn ym mhob cyfarfod ac roeddent yn aml yn fwy seiliedig ar drafodaeth nag yn cysylltu'n benodol â'r agenda wella ehangach neu unrhyw ganlyniadau penodol. Bwriedir newid hyn i gyfarfodydd a drefnir ynghylch pryderon neu bynciau penodol, yn deillio'n bennaf o ffrydiau gwaith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a blaenoriaethau Gweinidogion.

*Dull Cydlynol Diwygiedig at Wirfoddoli*

31. Mae tystiolaeth o'r ymgynghoriad yn dangos bod y cynlluniau grant gwirfoddoli cenedlaethol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Maent yn cael eu nodi fel rhan allweddol o helpu Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) a chanolfannau gwirfoddoli i annog gwirfoddoli. Felly, cynigir y dylai'r Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru bresennol a rhaglenni GwirVol barhau, ond erbyn hyn fel rhan o ymagwedd gyffredinol fwy cydlynol i gefnogi gwirfoddoli yng Nghymru. Dylai monitro a model cyflwyno'r ddwy raglen gael eu hystyried yn erbyn unrhyw newidiadau a gynigir o ran gweithio rhanbarthol a'r rôl rheoli a darparu ar gyfer corff cenedlaethol.

*Trefniadau Seilwaith Trydydd Sector Rhanbarthol Newydd*

32. Y cynnig yma yw y dylai Cyrff Seilwaith Trydydd Sector lleol (CGSau a Chanolfannau Gwirfoddoli) yn awr symud tuag at weithio rhanbarthol yn unol â'r strwythurau a gynigir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y gyllideb bresennol ar gyfer y cyrff hyn yn cael ei chynnig ar sail ranbarthol yn y dyfodol, gyda gofyniad i Gynghorau Gwirfoddol Sirol a chanolfannau gwirfoddoli weithio gyda'i gilydd ac mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y cynnig yn cael ei wneud yn seiliedig ar y chwe rhanbarth o Gydweithio yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yn y lle cyntaf. Bydd hyn yn amodol ar drafodaethau pellach gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol a chanolfannau gwirfoddoli er mwyn rhoi amser iddynt wneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer y newid sylweddol hwn mewn ffordd o weithio.

33. Nod cyffredinol y trefniadau newydd ddylai fod i annog cyfeiriad mwy strategol ar gyfer Seilwaith y Trydydd Sector i gyflawni blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a'r Rhaglen Lywodraethu. Mae rhannu adnoddau i sicrhau bod y gwasanaeth i wirfoddolwyr a mudiadau Trydydd Sector lleol yn cael ei gynnal a'i wella yn ystyriaeth bwysig hefyd. Bydd y cynnig o grant yn canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau sydd wedi cael eu nodi fel rhai gwerthfawr gan sefydliadau lleol.

*Rôl ddiwygiedig i Gorff Cenedlaethol*

34. Mae'n amlwg fod angen parhaus am gorff cenedlaethol ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae gan CGGC rôl arwain bwysig, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector i symud ymlaen gyda'r newidiadau a gynigir ar gyfer y dyfodol.

35. Ond y mae angen cael diffiniad o'r swyddogaethau a gyflawnir orau gan gorff cenedlaethol, gan gynnwys swyddogaethau megis rheoli'r grant Seilwaith; ymgysylltu a chynrychiolaeth; ymchwil; hyfforddiant a chymorth; a darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys ailddatgan rôl CCGC mewn rhai agweddau pwysig allweddol.

36. Bydd trefniadau yn y dyfodol yn golygu mwy o ymgysylltu gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol ar y lefel ranbarthol gyda chyrff Seilwaith. Yn benodol, bwriedir galluogi mwy o ymgysylltiad â'r sefydliadau Elusennol mwy sydd â gallu i weithio gyda Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru ar bolisi heb yr angen am gorff ambarél i'w cynrychioli, gan gynnwys elusennau'r DU a rhyngwladol gyda phresenoldeb sylweddol yng Nghymru.

*Compactau*

37. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig y dylai Compactau lleol rhwng llywodraeth leol a'r Trydydd Sector gael eu cryfhau drwy ddefnyddio gwell arweiniad a monitro. Dylai'r newidiadau i fodel mwy rhanbarthol o weithio helpu yn y broses hon a bydd compactau yn parhau i fod yn offeryn allweddol i hwyluso deialog gydag awdurdodau lleol, byrddau

iechyd a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.  Ar y sail hon, cynigir peidio â bwrw ymlaen â Mesur Compactau'r Trydydd Sector yn y dyfodol rhagweladwy.  Bydd canllawiau manwl ar Gompactau lleol yn cael eu datblygu yn ystod 2014.

*Y Camau Nesaf*

38. Mae'r cynigion a gynhwysir yn y dystiolaeth hon yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r ymgynghoriad pellgyrhaeddol a gynhaliwyd dros yr haf. Fe fydd, serch hynny, gyfnod pellach o ymgynghori drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ynghylch Cynllun y Trydydd Sector a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector cyn i'r cynigion hyn gael eu hystyried ymhellach ac, os credir eu bod yn briodol, eu cynnwys mewn Cynllun Trydydd Sector diwygiedig.

## Perthynas â Sefydliadau Anllywodraethol

*"Cyrff Ambarél" Trydydd Sector Arall*

39. Mae yna nifer o gyrff ambarél Trydydd Sector eraill yng Nghymru, y cefnogir llawer ohonynt i ryw raddau gan Lywodraeth Cymru.  Fel arfer mae'r rhain yn cynrychioli rhannau penodol o'r sector (er enghraifft, y celfyddydau gan Gelfyddydau Gwirfoddol Cymru, neu fenter gymdeithasol (gan Coop Cymru) gyda chyllid, os o gwbl, trwy'r portffolio priodol.   Er bod llawer o'r cyrff hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan eu haelodau ac ar hyn o bryd yn cyfrannu at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, mae'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at yr angen am archwiliad pellach o sut mae eu gwaith yn cydweddu â rôl y prif Gyrff Seilwaith a amlinellir uchod.   Mae Tîm y Trydydd Sector wedi dechrau trafodaeth fanwl ar draws adrannau i edrych ar y mater hwn gyda'r bwriad o roi gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau cyllido yn y dyfodol.

*Elusennau'r DU ac Elusennau Rhyngwladol*

40. Mater arall a amlygwyd gan yr ymgynghoriad yw'r lefel gymharol isel o gyfranogiad gan elusennau yn y DU ac yn rhyngwladol yn y prif strwythurau sy'n ategu ymgysylltiad y sector gyda Llywodraeth Cymru.   Er bod cyrff megis Oxfam, Achub y Plant a Barnardos yn cwrdd â Gweinidogion yn eithaf aml ac mewn rhai achosion yn cael eu cynrychioli ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, mae cryn le i gynyddu'r lefelau hyn o gyswllt a gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau ac arbenigedd cyrff o'r fath.

## Llywodraeth Cymru yn gweithio'n ehangach gyda'r Trydydd Sector

41. Mae ehangder perthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector yn cael ei ddangos yn amrywiaeth y sefydliadau sy'n derbyn cyllid ac sydd â pherthynas gydag Adrannau Llywodraeth Cymru.  Mae Atodiad A yn cynnwys enghreifftiau o'r mathau o sefydliadau a'r berthynas waith sy'n helpu i ddarparu yn erbyn nodau'r Rhaglen Lywodraethu.

**Casgliad**

42. Mae gan Lywodraeth Cymru hanes hir o werthfawrogi'r cyfraniad y gallai'r Trydydd Sector ei wneud i les tymor hir pobl Cymru.  Mae'r ymgynghoriad diweddar ynghylch Parhad a Newid wedi amlygu rhai agweddau pwysig ar y berthynas bresennol, ond hefyd lle mae newid yn angenrheidiol i sicrhau bod y berthynas bwysig hon yn addas ar gyfer y presennol a'r dyfodol.  Rydym yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn yn ein cyllid ar gyfer y gyllideb Seilwaith ond hefyd yn cydnabod na all y Trydydd Sector gael ei hynysu oddi wrth y penderfyniadau anodd y mae'n rhaid eu gwneud yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Bydd y trefniadau rydym yn eu cynnig ar gyfer y dyfodol yn helpu i sicrhau bod y sector a'r berthynas yn parhau i fod yn gryf a hyfyw gan gynnwys o ran gweithio'n rhanbarthol, arloesi a rhoi ffocws ar sicrhau bod y Trydydd Sector yn cyfrannu at y canlyniadau sy'n bwysig i Gymru.

**Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC**

**Prif Weinidog Cymru**

**Enghreifftiau o Ymgysylltu Adrannol Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector**

## Yr Adran Addysg a Sgiliau

Ym mhennod 12, Diwylliant a Threftadaeth Cymru, y Rhaglen Lywodraethu, mae gan yr Adran Addysg a Sgiliau ymrwymiad (12/021) i Waith i sicrhau bod grwpiau cymunedol yn teimlo y gallant ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel rhan o'u gweithgareddau ac yn gallu gweithredu'n ddwyieithog.

Mae Mentrau Iaith, a gefnogir gan grantiau Llywodraeth Cymru, yn gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol ledled Cymru i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Mentrau yn cyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu drwy annog aelodau o'r gymuned i gymryd rhan a mynychu dros 120 o weithgareddau sy'n ceisio cael y rhai sy'n cymryd rhan i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg. Mae pob menter wedi ei hanelu at godi hyder, codi ymwybyddiaeth, a rhoi cymorth ymarferol i grwpiau cymunedol i gynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae gweithgareddau a digwyddiadau yn amrywio'n fawr o gyfarfodydd anffurfiol lle mae unigolion yn dod i ymarfer eu Cymraeg i wyliau cerdd ar raddfa fawr a gweithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys yr ysgolion lleol.

Mae pob un o'r Mentrau Iaith yn derbyn arian cyfatebol gan nifer o gyllidwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd sy'n cyfrannu at staffio a rhywfaint o gostau prosiectau. Cyfanswm y swm a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2013/14 yw £1,769,598.

## Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad (4/072) i barhau i wella gofal a chymorth i bobl â dementia a'u teuluoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i'r Gymdeithas Alzheimer i ddatblygu Pecynnau Gwybodaeth am Ddementia i'r rhai hynny sydd wedi derbyn diagnosis yng Nghymru a'u perthnasau/gofalwyr.

Mae'r pecyn gwybodaeth Byw yn dda gyda Dementia ar ôl Diagnosis, y pecyn cyntaf o'r fath yn y DU, yn egluro effeithiau tebygol y cyflwr a ffynonellau cyngor pellach.  Mae Cymdeithas Alzheimer hefyd wedi penodi dau Gydgysylltwr Gwybodaeth Dementia yng Nghymru i sicrhau y lledaenir y Pecynnau Gwybodaeth, ac i wneud cysylltiadau ag asiantaethau lleol allweddol.

Mae Cymdeithas Alzheimer hefyd wedi bod yn gweithio gyda Gofal Sylfaenol Cymru yn y Rhwydwaith Iechyd Meddwl mewn menter a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn hyfforddiant dementia ar gyfer meddygon teulu a staff gofal sylfaenol. Pwrpas hwn yw cynyddu gwybodaeth

a dealltwriaeth am anghenion pobl â dementia a'u gofalwyr, a bydd yn cael ei lansio ym mis Tachwedd 2013.

*Cynllun Mentora Cymheiriaid Cronfa Gymdeithasol Ewrop*

Mae Cynllun Mentora Cymheiriaid Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi bod ar waith ers mis Hydref 2009, ac yn cael ei ddarparu ar gyfer Cymru gyfan gan chwe Darparwr sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn y trydydd sector. Prif amcan y cynllun o hyd yw cynnwys Mentoriaid Cymheiriaid o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar draws Cymru er mwyn darparu gallu ychwanegol i ymdrin â gwaith achos. Gwneir hyn drwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar gyflawni annibyniaeth economaidd i'r Cyfranogwyr.

Ers ei sefydlu, mae Cynllun Mentora Cymheiriaid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn amlwg yn cyflawni canlyniadau ar lawr gwlad i rai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed. Hyd at ddiwedd mis Medi 2013, mae dros 9600 o gyfranogwyr wedi cofrestru ar y cynllun, gyda 863 yn mynd i i gyflogaeth a 923 yn ymgymryd â dysgu pellach.

**Dyfodol Cynaliadwy**

Mae pennod naw y Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi, gan gynnwys drwy weithredu'r Strategaeth Tlodi Tanwydd. Mae'r camau hyn yn cynnwys darparu rhaglen Tlodi Tanwydd Cymru gyfan (Nest) a arweinir gan alw, gwasanaethau cynghori ar gyfer cartrefi a darparu Arbed, rhaglen effeithlonrwydd ynni strategol yn seiliedig ar ardaloedd.

Mae'r trydydd sector yn chwarae rôl weithredol a phwysig o ran darparu cyngor i aelwydydd sy'n dioddef tlodi tanwydd ac annog pobl i weithredu, er enghraifft drwy ddefnyddio Nest, newid tanwydd, a defnyddio ynni yn fwy effeithlon.

Y brif ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r trydydd sector mewn ystyr ymarferol yw wrth ddarparu Nest, ein rhaglen tlodi tanwydd. Mae rheolwr y cynllun, Nwy Prydain, wedi sefydlu Bwrdd Rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o'r trydydd sector.

Yn ogystal, cynyddodd rheolwr y cynllun y nifer o atgyfeiriadau i'r cynllun gan y trydydd sector ac mae'n anelu at droi hyn i fod y prif fecanwaith i gyrraedd cwsmeriaid. Mae profiad yn dangos bod partneriaid y trydydd sector yn cael mynediad at gyrraedd aelwydydd agored i niwed y mae technegau marchnata traddodiadol yn ei chael yn anodd eu denu.

**Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

Mae ymrwymiad 1/008 y Rhaglen Lywodraethu yn ceisio sicrhau bod gan y sector cydfuddiannol a chydweithredol fynediad at gyngor busnes priodol a chadarn ac y bydd arweiniad Gweinidogol yn yr Adran Economi.

Mae'r Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cwrdd â Chanolfan Gydweithredol Cymru ddwywaith y flwyddyn i drafod materion yn ymwneud â mentrau cymdeithasol er mwyn helpu i ddatblygu'r sector. Yn ystod 2012/13, cafodd Canolfan Cydweithredol Cymru, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu eu hariannu i ddarparu gwasanaethau arbenigol i aelodau a chyngor polisi arbenigol i Lywodraeth Cymru.  Derbyniodd Cwmnïau Cymdeithasol Cymru £150,000 ar gyfer prosiect peilot i ddatblygu modelau o gwmnïau cymdeithasol sy'n arbenigo mewn gofal plant a gofal cymdeithasol.

Oherwydd mai 2012 oedd Blwyddyn Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig dros y Mentrau Cydweithredol sefydlodd y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Gomisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru, dan Gadeiryddiaeth yr Athro Andrew, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion ar dyfu a datblygu'r economi gydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru er mwyn creu swyddi a chyfoeth i gefnogi nodau ac uchelgais Llywodraeth Cymru. Bydd y Comisiwn yn adrodd i'r Gweinidog yn ystod hydref 2013.

**Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen sy'n canolbwyntio ar y gymuned sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi.  Mae'n cefnogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig gyda'r nod o liniaru tlodi parhaus. Mae Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio'n benodol ar liniaru tlodi drwy wella iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd.

Mae pedwar o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ym Mlaenau Gwent. Mae Clwstwr Tredegar yn cynnwys cyfran sylweddol o dref Tredegar ac ardaloedd cyfagos gyda Chlwstwr Ebwy Fawr yn cynnwys cyfran sylweddol o dref Glyn Ebwy Tref ac ardaloedd cyfagos. Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yw'r Corff Cyflawni Arweiniol ar gyfer y ddau Glwstwr hyn.

Mae GAVO yn arwain y clystyrau mewn ystod eang o brosiectau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol y Rhaglen Lywodraethu, sy'n cynnwys:

- Dyheadau Iau - ar gyfer disgyblion blwyddyn 6, gan roi gwell dealltwriaeth iddynt o'r cyfleoedd dysgu, cyflogaeth a hyfforddiant sydd ar gael iddynt;
- Yr Awr Pŵer - sy'n ceisio lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad academaidd yng nghanlyniadau cyfnodau allweddol 2, 3 a 4 yn benodol;
- GRAB - sy'n anelu at leihau absenoldeb drwy weithredu nod barcud gwrth-fwlio;
- Gwirfoddoli - sy'n annog cyfranogwyr i gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli a fydd yn cynyddu cyflogadwyedd ac ati; a
- Mentora - sy'n darparu cyfleoedd i gyfranogwyr hyfforddi fel mentoriaid a dod yn fodelau rôl.

**PAPUR I'R PWYLLGOR CRAFFU AR WAITH Y PRIF WEINIDOG AR Y BERTHYNAS RHWNG LLYWODRAETH CYMRU A'R SECTOR PREIFAT**

**Cyflwyniad**

1. Diben y papur hwn yw cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog am y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector preifat.

2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a gwerthfawrogi'r sector preifat a busnes, i ymgynghori â nhw a cheisio sefydlu partneriaeth gyda'r partneriaid cymdeithasol (sefydliadau cynrychioli busnes, TUC Cymru a sefydliadau eraill) er budd economi a chymdeithas Cymru. Drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r partneriaid cymdeithasol, mae Gweinidogion Cymru'n cydnabod bod busnes yn hanfodol i lwyddiant economi Cymru a sefydlogrwydd a chadernid ein cymdeithas.

3. Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru i hwyluso ymgysylltu a chydweithio effeithiol gyda'n partneriaid cymdeithasol.

**Cyngor Adnewyddu'r Economi**

4. Un o ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1998, fel y'i diwygiwyd yn 2006, yw fod Llywodraeth Cymru'n ymgynghori â busnesau pan fydd arfer swyddogaethau'r Llywodraeth yn effeithio arnynt. Hefyd, yn unol â'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud cynllun busnes yn nodi sut y maent am ymgynghori â busnesau.

5. Yn unol â Chynllun Busnes Gweinidogion Cymru, sefydlwyd Cyngor Adnewyddu'r Economi (a alwyd gynt yn 'Cyngor Partneriaeth Busnes') yn 2002. Mae'r Cyngor yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Caiff ei gadeirio gan y Prif Weinidog a daw'r aelodau o sefydliadau cynrychioli busnes, mentrau cymdeithasol ac undebau llafur.

6. Caiff y Cyngor Adnewyddu'r Economi ei gefnogi gan weithgor gydag aelodau o'r Cyngor llawn yn aelodau ohono. Y gweithgor hwn sy'n bwrw ymlaen gyda'r camau sydd angen eu cymryd yn sgil cyfarfodydd y Cyngor llawn. Mae gan Lywodraeth Cymru Grŵp Swyddogion Cynllun Busnes i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Busnes.

**Adrannau Llywodraeth Cymru**

7. Mae rôl y sector preifat yn amrywio o adran i adran, felly hefyd y berthynas rhwng yr adrannau hynny a'r sector preifat.

8. Mae gweithio gyda'r sector preifat yn rhan annatod o waith Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, naill ai drwy gontractwyr neu gyda busnesau'n uniongyrchol. Dyma rai enghreifftiau o sut y cysylltir gyda'r sector preifat yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth:

- Sefydlu deg panel cynghori dan arweiniad y sector preifat i roi cyngor uniongyrchol ac i lywio gwaith yr adran.

- Mae miloedd o fusnesau yn cysylltu â'r adran dros y llinell gymorth. Hefyd, mae degau o filoedd yn ymweld â'n gwefan ac yn cysylltu â ni ar y cyfryngau

cymdeithasol - mae hyn yn ein galluogi ni i weld beth sy'n digwydd a dilyn tueddiadau.

- Sefydlu nifer o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i gynghori ar faterion trafnidiaeth, megis y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cludo Nwyddau a'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Drafnidiaeth yng Ngogledd Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae cryn dipyn o gynrychiolaeth o'r sector preifat ar y grwpiau hyn.

- Cydweithio'n agos â darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus, Trenau Arriva Cymru er enghraifft, sef y cwmni sydd â'r fasnachfraint rheilffyrdd ar gyfer Cymru a'r Gororau, masnachfraint a reolir gan Lywodraeth Cymru.

9. Mae perthynas yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â'r sector preifat yn cynnwys gweithgarwch 'trafodol', megis caffael gan y GIG a chefnogaeth i weithgarwch treialon clinigol, yn ogystal ag ymgysylltu â'r diwydiant fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (yr NISCHR) yn ymgysylltu â'r diwydiant drwy nifer o grwpiau sefydlog, gan gynnwys y Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles; Ffrwd Gwaith y GIG, Gofal Cymdeithasol a Busnes (sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Arloesi); Grŵp Diwydiant Rhaglen Cydweithredu Academaidd ym maes Gwyddorau Iechyd yr NISCHR; a Phrosiect Cyfnewid Gwybodaeth Gwyddorau Byw Cymru.

10. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn ymgysylltu'n agos â'r sector preifat ar bob agwedd bwysig ym maes polisi a chyflawni addysg a sgiliau. Mae hyn yn cynnwys:

    - Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, sy'n cael ei gadeirio gan Gomisiynydd Cymru i Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau ac sy'n fforwm annibynnol i gyflogwyr drafod ystod eang o bynciau'n ymwneud â sgiliau a chyflogaeth.

    - Ymgysylltu â grwpiau cynrychioli cyflogwyr, megis y CBI, Ffederasiwn Busnesau Bach, ITBS a Chynghorau Sgiliau Sector er mwyn cael sail o wybodaeth ar gyfer ein polisi cyflogaeth a sgiliau a'n gwaith yn y maes.

    - Cynnwys grwpiau cyflogwyr allweddol yn y gwaith o lunio'r strategaeth sgiliau, gan gynnwys ymgynghori'n uniongyrchol â Commerce Cymru, sy'n cynnwys y sefydliadau cynrychioli busnes allweddol yng Nghymru.

    - Gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith i sicrhau ein bod yn cyflawni o ran y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer economi Cymru, mewn meysydd megis Prentisiaethau.

11. Mae ymgysylltu â'r sector preifat yn yr Adran Dyfodol Cynaliadwy yn cynnwys ystod eang o feysydd, gan gynnwys sectorau megis adeiladu, tai, gwastraff, ynni a bwyd. Yn ogystal, fel y sefydliad cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gymysgedd unigryw o gyfrifoldebau er mwyn annog rheolaeth gydgysylltiedig a rhagweithiol o'n cyfoeth naturiol - mae cynnal busnes â'r corff newydd hwn yn haws ac mae'n rhoi un pwynt cyswllt i fusnesau. Mae creu'r corff yn gyfle i edrych eto ar brosesau a lleihau dyblygu gwaith a

biwrocratiaeth, gan symleiddio a gwella'r amgylchedd reoleiddio er budd busnes a'r economi.

**Casgliad**

12. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r sector preifat ar draws pob adran a thrwy amrywiaeth o ffyrdd, gan sicrhau bod ein blaenoriaethau a'n polisïau yn canolbwyntio ar gyflawni i Gymru.

**Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC**

**Prif Weinidog Cymru**